**Rhif: WG26555**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau mewn perthynas â Methiant Busnes ac Adran 47

Ebrill 2016

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-6663-0

# Rheoliadau mewn perthynas â Methiant Busnes ac Adran 47 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

**Cynnwys** | **Tudalen**


**Adran 1**

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Y dystiolaeth ar gyfer newid** | **3** |
| **Y cynnig** | **4** |

**Adran 2**

| | |
|---|---|
| **Ymateb i'r Cwestiynau Ymgynghori** | **6** |
| **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** | **10** |

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

### Cefndir

### Y dystiolaeth ar gyfer newid

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion [1], a'n Hadolygiad o Ddiogelu[2]. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy'r broses graffu genedlaethol ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r

[1] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm
[2] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy

canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[3], prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

**Y cynnig**

**Methiant Busnes**

Mae'r rheoliadau'n diffinio 'methiant busnes'. Mae Rheoliad 2 yn nodi'r digwyddiadau sy'n gyfystyr â 'methiant busnes' at ddibenion y dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Mewn perthynas â darparwr, nad yw'n unigolyn, sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru, mae methiant busnes yn cynnwys:

- Penodi gweinyddwr
- Penodi derbynnydd
- Penodi derbynnydd gweinyddol
- Pasio penderfyniad ar gyfer gorchymyn i ddirwyn busnes i ben yn wirfoddol
- Gwneud gorchmynion methdalu pan fo aelodau unigol o bartneriaeth yn cyflwyno deiseb methdalu ar y cyd
- Mewn perthynas ag elusen anghorfforedig, ymddiriedolwyr yr elusen yn methu â thalu eu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus
- Pob aelod o bartneriaeth yn cael ei ddyfarnu'n fethdalwr; neu
- Drefniant gwirfoddol yn cael ei gymeradwyo o dan Ddeddf Ansolfedd 1986.

Mewn perthynas â darparwr sy'n unigolyn sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru, mae 'methiant busnes' yn cynnwys yr unigolyn yn cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu'n cynnig trefniant gwirfoddol unigol neu'n ymrwymo i drefniant o'r fath o dan Ran 8 o Ddeddf 1986 neu Ran 8 o Orchymyn 1989, neu fod yr unigolyn yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled.

O dan y Ddeddf, mae'r dyletswyddau dros dro yn cael eu sbarduno pan fo darparwr cofrestredig yn methu â rhedeg sefydliad neu ei reoli neu'n methu â rhedeg asiantaeth neu ei rheoli oherwydd methiant busnes.

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015 yn cynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled fel rhan o'r diffiniad o fethiant busnes. Mae'r rhain yn berthnasol i leoliadau a wnaed gan awdurdodau yng Nghymru yn unig.

**Darparu Gwasanaethau Iechyd dan Adran 47**

[3] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

Mae Adrannau 47(6) a (7) o'r Ddeddf yn disodli adran 26(1C) ac (1D) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Mae diben Adran 47(6)(a) yn debyg i adran 26(1C) o Ddeddf 1948 yn yr ystyr ei bod yn caniatáu i awdurdod lleol drefnu i lety ynghyd â gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig gael eu darparu, os yw wedi cael cydsyniad y corff iechyd priodol. Mae rheoliadau dan adran 47(6)(a) yn ofynnol i amodi pa gorff yw'r corff iechyd priodol mewn achosion o'r fath.

Mae Adrannau 47(6)(b) a 47(7) yn gwneud darpariaeth debyg i adran 26(1D) o Ddeddf 1948 i'r graddau eu bod yn galluogi awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer darparu llety o'r fath mewn achos brys a – lle bo'r trefniadau'n rhai dros dro – heb yr angen i gael cydsyniad y corff iechyd priodol, ar yr amod y ceir cydsyniad cyn gynted ag y bo'n ddichonadwy ar ôl i'r trefniadau dros dro gael eu gwneud.

Er bod y geiriad yn wahanol, mae effaith y darpariaethau yn Neddf 1948 a Deddf 2014 yr un fath, heblaw bod modd gwneud darpariaeth yn awr yn y rheoliadau dan Ddeddf 2014 o ran pa Fwrdd Iechyd Lleol y mae'n rhaid iddo roi cydsyniad yn achos llety yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau mewn cysylltiad â datrys anghydfodau hefyd.

## Adran 2 – Ymateb i'r Cwestiynau Ymgynghori

**Cwestiwn 1:**

| | Rydym yn gwahodd eich barn ynghylch cynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled o fewn y diffiniad o fethiant busnes. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm – 6** | | | | | |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd y ffaith bod gorchmynion rhyddhau o ddyled wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o fethiant busnes yn cael ei chroesawu gan yr holl ymatebwyr ac argymhellwyd eu cadw yn y rheoliadau a'r canllawiau. Roedd ymatebwyr yn cytuno eu bod yn rhan annatod o'r diffiniad ac yn helpu i amlinellu safbwynt awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â methiant busnes sefydliad sy'n darparu.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r holl gwmnïau sydd ar hyn o bryd yn ddarparwyr gofal wedi'u contractio gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau bod sefydliadau sy'n gomisiynwyr gofal yn meddu ar yr wybodaeth ariannol ddiweddaraf er mwyn sicrhau bod y busnes yn hyfyw ac felly'n briodol ar gyfer lleoli cleifion / preswylwyr mewn cyfleusterau megis cartrefi gofal neu yng nghartref y claf ei hun. Fe all fod yn wir ar hyn o bryd nad yw manylion ariannol llawn darparwyr gofal wastad ar gael i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i roi cymorth i wneud penderfyniadau ynghylch lleoli.

Gwnaeth rhai eraill y sylw bod y ddarpariaeth wedi'i bwriadu i ddiogelu'r trefniadau darparu gofal ar gyfer yr unigolion hynny a allai syrthio drwy'r rhwyd yn y pen draw pe na bai gorchymyn rhyddhau o ddyled yn gyfystyr â methiant busnes ac fe amlygon nhw bwysigrwydd dod yn ymwybodol o fethiant posibl busnes cyn bod gorchmynion o'r fath yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, er bod y ffaith bod y gorchmynion wedi'u cynnwys yn cael ei chroesawu, roedd peth pryder na fydd awdurdodau lleol ond yn dod yn ymwybodol bod gorchymyn rhyddhau o ddyled wedi'i wneud mewn perthynas ag unigolyn ar adeg argyfwng gan nad yw'n ymddangos bod modd adnabod y rhai sydd mewn perygl dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol arfaethedig (Adrannau 59 – 63 – Trosolwg o'r Farchnad). Mae hyn i'w weld fel pe bai'n awgrymu mai dim ond y darparwyr hynny sy'n creu mwy o risg os ydynt yn methu fydd yn cael eu hadnabod.

Gwnaeth rhai ymatebwyr y sylw nad yw unig fasnachwyr o bosibl yn darparu gwasanaethau gofal dros ardal ddaearyddol fawr neu'n darparu portffolio arbenigol ac felly na fyddent yn cael eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol. Roedd teimlad felly bod angen sicrhau dull cadarn o adnabod ymyriadau a chynhorthwy cynnar er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredu i osgoi sefyllfa o argyfwng lle mae awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd lliniaru effeithiau methiant gan ddarparwr trwy ddarparu gofal arall.

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod nad yw'n rhesymol nac yn rhwydd i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o sefyllfa ariannol pob unig fasnachwr, ond roeddent yn teimlo'i bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn ymwybodol ar adeg gynnar, os oedd darparwr unigol yn ystyried gorchymyn rhyddhau o ddyled oherwydd ei sefyllfa ariannol, er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr gofal yn cael eu gadael heb y gofal y mae ei angen arnynt. Mae toriad yn y gofal yn gallu achosi straen a gorbryder diangen gan felly effeithio ar lesiant unigolion.

Nododd un ymatebydd nad yw gorchmynion rhyddhau o ddyled ond wedi'u cynnwys ar gyfer

methiant busnes mewn perthynas ag unigolion, ac roedd yn teimlo na ellid anwybyddu'r ffaith bod gwneud gorchymyn rhyddhau o ddyled mewn perthynas ag unigolyn yn gallu cael effaith mewn ffyrdd eraill. Dan Adran 11(1)(d) o Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986, ni all unigolyn sy'n ddarostyngedig i gyfnod moratoriwm dan orchymyn rhyddhau o ddyled fod yn gyfarwyddwr cwmni na rheoli cwmni heb ganiatâd y Llys. Felly gallai hyn effeithio ar redeg busnes darparwr gofal – ac er y gellid dadlau na fyddai'n arwain at fethiant y busnes ar y pwynt hwn yn unig, roedd yn rhywbeth i'w gadw mewn cof.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i gynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled yn y rheoliadau.

**Cwestiwn 2:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rydym wedi gofyn cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod inni amdanynt. | | | | |
| **Cyfanswm – 6** | | | | | |

**Crynodeb o'r ymatebion**

O'r chwe ymateb a gafwyd, dim ond un ymatebydd a gododd fater ychwanegol gan ofyn pam mai dim ond ar yr awdurdod lleol yr oedd y ddyletswydd wedi cael ei gosod. Roedd teimlad, lle'r oedd y cartref yn lletya defnyddwyr gwasanaethau Gofal Nyrsio a Ariennir neu Ofal Iechyd Parhaus, mai gyda'r bwrdd iechyd y dylai'r ddyletswydd fod. Nodwyd hefyd, fel gyda chartrefi sy'n cau ar hyn o bryd, mai ymarfer ar y cyd yw hyn fel arfer.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid yw'r ymgynghoriad yn dynodi angen i ddiwygio'r rheoliadau. Bydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei throsglwyddo i'r rhai sy'n arwain ar y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu i'w helpu i ddatblygu cyfundrefn briodol o ran trosolwg ar y farchnad.

Yn ymarferol, bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau parhad o ran y gofal i unigolion ac arnynt angen gofal a chymorth.

**Cwestiwn 3:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | A yw'r rheoliadau'n glir o ran pa gorff iechyd perthnasol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gael cydsyniad ganddo, er mwyn trefnu i lety, ynghyd â gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig, gael eu darparu? | | | | |
| **Cyfanswm – 6** | | | | | |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod y rheoliadau a'r canllawiau'n glir, ac fe wnaethant y sylw bod y tabl a oedd wedi'i gynnwys yn y canllawiau'n arbennig o ddefnyddiol fel un y gellir cyfeirio'n gyflym ato ac argymhellwyd fod y tabl hwn yn cael ei gadw yn y canllawiau terfynol. Mae cyfrifoldebau a threfniadau ariannu'n glir yn y ddogfen hefyd yn unol â'r Canllawiau ynghylch y Comisiynydd Cyfrifol gan Lywodraeth Cymru. Nododd un ymatebydd fod yr eglurhad o drefniadau trawsffiniol yn ddefnyddiol hefyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ni fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio yng ngoleuni'r adborth cadarnhaol o'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 4:**

| | A yw'n glir pa drefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud mewn cysylltiad â datrys anghydfodau rhwng yr awdurdod lleol a'r corff iechyd ynghylch pa un a yw'n ofynnol darparu gwasanaeth neu gyfleuster o dan ddeddfiad iechyd ai peidio? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm – 6** | | | | | |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y rheoliadau a'r canllawiau'n glir o ran pa drefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud er mwyn datrys anghydfodau rhwng yr awdurdod lleol a'r corff iechyd. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y rhestr o resymau posibl dros anghydfodau wedi'i chynnwys yn y rheoliadau a'r canllawiau gan fod y rhain yn faterion cyffredin sy'n cael eu codi gyda Llinell Gymorth Dementia Cymru. Argymhellodd ymatebwyr fod y rhain yn cael eu cadw yn y rheoliadau a'r canllawiau terfynol.

Fe wnaeth rhai'r sylw bod datrys anghydfodau rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gallu bod yn anodd weithiau ac y gallai disgrifiad mwy eglur dan y Ddeddf o'r trefniadau ar gyfer anghydfodau helpu i ddatrys anghydfodau rhwng sefydliadau yn y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn ystyried hefyd y byddai nodi'n eglur pwy sy'n arwain o ran sicrhau bod y polisi yn ei le yn ddefnyddiol i sefydliadau.

Nododd rhai ymatebwyr fod y rheoliadau i'w gweld fel pe baent yn gosod y baich ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer anghydfodau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymhwystra ar gyfer cyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Er bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y trefniadau hynny (megis gweithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau y cytunwyd arni â'r corff iechyd, darpariaeth i sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu diwallu wrth aros am ddatrysiad a gofyniad nad yw'r anghydfod yn effeithio'n andwyol ar ddiwallu anghenion yr unigolyn) roedd ymatebwyr yn teimlo nad yw'n mynd ymhellach ac nad oes awgrym o unrhyw ganllawiau i gynorthwyo.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod Deddf Gofal a Chymorth (Darparu Gwasanaethau Iechyd) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, cytuno ar weithdrefn datrys anghydfodau gyda'r corff perthnasol a datrys anghydfod yn unol â'r weithdrefn honno. O ystyried y diffyg cyfarwyddyd o fewn y rheoliadau fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y trefniadau rhyngasiantaethol lleol sydd eisoes yn bodoli'n parhau i gael eu defnyddio yng Nghymru gan fabwysiadu'r darpariaethau penodol a nodir yn y rheoliadau. Argymhellodd ymatebwyr y gallai'r canllawiau egluro'r sefyllfa hon ymhellach os yw trefniadau rhyngasiantaethol lleol ar gyfer datrys anghydfodau'n dderbyniol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn cynnwys anghydfodau.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol I | / N | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | * | | | |
| 2. | | * | Laura Cook | Cymdeithas Clefyd Alzheimer |
| 3. | | * | Sandra Morgan | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 4. | | * | Stephanie O'Donnell/Clare Thomas | Cyngor Sir Ddinbych |
| 5. | * | | | |
| 6. | | * | Eunice Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |